Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales


# Twyni tywod drwy amser - | Cwningar Niwbwrch

Cardiau adnoddau

## Y 5ed Ganrif

Enwyd Ynys Llanddwyn ar ôl Santes Dwynwen. Syrthiodd mewn cariad â llanc o'r enw Maelon ond gwrthododd ei sylw a hynny, gan ddibynnu ar y stori rydych chi'n ei darllen, naill ai am ei bod hi'n dymuno bod yn lleian neu am fod ei thad yn dymuno iddi briodi rhywun arall. Yn ôl y chwedl, gweddïodd am gael ei rhyddhau rhag bod yn anhapus mewn cariad â Maelon.

Ymwelodd angel â hi a rhoi diod iddi a wnaeth wella ei cholled a throi Maelon yn iâ. Yna gweddïodd y byddai'n cael tri dymuniad: yn gyntaf, y byddai Maelon yn cael ei ddadmer; yn ail, bod yr holl wir gariadon yn dod o hyd i hapusrwydd; ac yn olaf, na fyddai hi byth eto'n dymuno priodi. Yna, dyma hi'n ymroi ei bywyd i Dduw ac yn byw ar yr ynys nes bu farw yn 465 OC. Daeth Dwynwen yn adnabyddus fel nawddsant y cariadon yng Nghymru a gwnaed pererindodau i'w ffynnon sanctaidd ar yr ynys.



# Y 13eg Ganrif

Roedd ardal Niwbwrch yn rhanbarth o diroedd amaeth bras a thref ffyniannus. Roedd rhan o Deyrnas Gwynedd, Llys Brenhinol o'r enw Rhosyr, yn Niwbwrch.

Dyma'r ganolfan weinyddol lle arhosodd Llywelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd, pan deithiodd o gwmpas ei deyrnas. Arweiniodd cwest Brenin Edward I ym 1282 at adael Rhosyr.



## Y 14eg Ganrif

Cafodd cyfran fawr o Niwbwrch ei chladdu gan gyfres o stormydd ffyrnig dros ben a chladdwyd yr ardal amaethyddol gyfagos o dan dwyni tywod.

Ym 1331, claddwyd ardal cymaint â 150 o gaeau pêl-droed dros nos gan gynnwys yr hyn a oedd yn weddill o Lys Rhosyr. Gollyngodd y môr a'r gwynt gymaint o dywod nes bod wyth bwthyn fferm wedi'u claddu, gan ei gwneud yn amhosibl byw ynddynt neu barhau i ffermio yn yr ardal. Gan fod tywod wedi'i chwythu'n parhau i achosi problem, plannwyd glaswellt y tywod i sefydlogi'r twyni ac atal y tywod rhag cymryd drosodd.



## Yr 16eg Ganrif

Yn ystod y cyfnod Elisabethaidd, byddai ymwelwyr yn gadael offrymau wrth gysegrfa Santes Dwynwen. Gan ei fod yn lle pererindod mor boblogaidd, ariannodd yr offrymau'r gwaith o adeiladu capel sylweddol ar safle capel gwreiddiol Dwynwen, y gellir gweld ei adfeilion o hyd.

Heddiw, rydym yn dathlu Dydd Santes Dwynwen ar 25 Ionawr bob blwyddyn.



## Yr 16eg Ganrif

Yn dilyn y stormydd yn y 14eg Ganrif, deddfodd y Frenhines Elizabeth I gyfraith, gan ei gwneud yn drosedd gosbadwy diwreiddio'r moresg, am fod ei gwreiddiau yn helpu i sefydlogi'r twyni.


Gorchmynnwyd plannu moresg gan ei Llywodraeth mewn ymdrech i sefydlogi'r twyni a'u hatal rhag symud ymlaen ymhellach.



# Y 18fed Ganrif

Roedd cwningod yn cytrefu'r twyni, gan roi enw Cwningar Niwbwrch i'r ardal. Gellir gweld arwydd carreg gyda Gwnhingaer Fawr arno heddiw o hyd, sef ffurf ar y gair cwningar yn Gymraeg. Roedd dal cwningod bellach yn rhan bwysig o'r economi.

Ar ei anterth cafodd 100,000 o gwningod y flwyddyn eu dal o'r gwningar a'u gwerthu neu eu bwyta. Daeth cig cwningod yn rhan bwysig o'r diet lleol tra bod gwartheg a defaid yn cael eu hanfon i'r farchnad. Buasai'r cwningod yn Niwbwrch yn helpu i adnewyddu'r twyni tywod drwy gael gwared ar lystyfiant i ddatgelu ardaloedd tywodlyd moel, gan helpu i greu cynefinoedd llawn rhywogaethau a oedd yn caniatáu i lawer o infertebratau, madfallod a nadroedd ffynnu.



# Y 18fed Ganrif

Ailddechreuwyd cynaeafu moresg yn Niwbwrch gyda dail y glaswellt yn cael eu gwehyddu i ffurfio matiau, rhaffau, rhwydi, basgedi a defnydd matiau. Hwn oedd prif ddiwydiant yr ardal, ac eithrio amaethyddiaeth, ac roedd gan bob teulu'n answyddogol ddarn o'r twyni lle byddai'n cynaeafu moresg yn yr haf.

Byddai'r trigolion yn gadael y moresg i sychu am ddwy flynedd, gan droi o'i liw gwyrdd i felyn euraidd cyn dechrau gwehyddu.



1840

Mae Llanddwyn (sy'n golygu eglwys Ynys Santes Dwynwen) ger mynedfa ddeheuol Afon Menai, sef llwybr llongau pwysig o borthladdoedd Bangor, Caernarfon a'r Felinheli. Adeiladwyd bythynnod ger y tŵr yn gartref i 'beilotiaid', sef dynion a fyddai'n tywys llongau i'r Afon.


Sefydlwyd bad achub ar yr ynys gyda chriw o'r peilotiaid, yn ogystal â gwirfoddolwyr o Niwbwrch ym 1840. Gellir gweld y canon a ddefnyddid i alw criw'r bad achub o hyd ger y bythynnod. Rhwng 1840 a 1903 pan gaeodd, achubodd y bad achub 101 o fywydau mewn 35 o wahanol ddigwyddiadau.



1845

Adeiladwyd goleufa, o'r enw Tŵr Bach, ym mlaen yr ynys, a ddefnyddiwyd i arwain llongau a oedd yn anelu am yr Afon.

Adeiladwyd goleudy o'r enw Tŵr Mawr, a fodelwyd ar felinau gwynt Ynys Môn, ym 1845, gan ddisodli'r goleufa, ac fe'i defnyddiwyd i arwain llongau drwy'r dyfroedd peryglus.



1913

Arweiniodd amgáu'r tir comin ar ddechrau'r 19eg Ganrif at golli hawliau i gasglu moresg, gan lesteirio'r diwydiant yn Niwbwrch.

Ym 1913, cafodd y diwydiant ei adfywio pan sefydlwyd Cymdeithas y Gwneuthurwyr Matiau a chafodd moresg o Gwningar Niwbwrch ei wehyddu unwaith eto nes i'r ardal gael ei meddiannu gan y Weinyddiaeth Ryfel ym 1939.



1939

Cymerwyd Cwningar Niwbwrch drosodd gan y Weinyddiaeth Ryfel ac fe'i defnyddiwyd fel ardal hyfforddi filwrol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Sefydlwyd ffug-faes awyr i ddargyfeirio awyrennau'r Almaen a'u bomiau i ffwrdd o orsafoedd go iawn yr Awyrlu ar yr ynys.

Yr unig gliw i'r bywyd blaenorol hwn yw byncer tanddaearol bach wedi'i gladdu'n ddwfn yn y tywod.



1947

Dechreuodd y Comisiwn Coedwigaeth blannu'r coed pinwydd Corsica sy'n ffurfio Coedwig Niwbwrch, i ateb y galw am bren ar ôl y rhyfel ac i sefydlogi'r twyni tywod symudol.

Arweiniodd hyn at lethu rhywfaint o lystyfiant gwreiddiol y twyni gan fod llai o olau ar gael. Gostyngwyd y lefel trwythiad hefyd ar y safle oherwydd y galw am ddŵr o'r coed.



**1954**

Wyth mis ar ôl cofnodi'r clefyd am y tro cyntaf yn Ynysoedd Prydain, adroddwyd am y brigiad cyntaf o fycsomatosis, sef clefyd firaol heintus iawn mewn cwningod sydd fel arfer yn angheuol, yn Niwbwrch ym mis Awst 1954. Cyn y brigiad, nododd adroddiadau'r Comisiwn Coedwigaeth fod maglwyr wedi mynd â thua 7,000 pâr o gwningod oddi ar y Gwningar bob blwyddyn heb leihau dwysedd y boblogaeth.

Yn dilyn y brigiad, dim ond tua 30-50 o gwningod a laddwyd yn flynyddol. Arweiniodd y gostyngiad yn nifer y cwningod at orchudd glaswellt trwchus a dirywiad yng nghyfoethogrwydd blodau'r twyni.




**1955**

Datganir mai Cwningar Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn yw'r Warchodfa Natur Genedlaethol arfordirol gyntaf yng Nghymru.

2019

Mae prosiect Twyni Byw, prosiect cadwraeth mawr, yn cael ei lansio i adfywio systemau twyni tywod Cymru, gan gynnwys Cwningar Niwbwrch.

Nod y prosiect yw ail-greu symudiad naturiol o fewn twyni tywod ac adfywio'r cynefinoedd hyn sy'n gartref i rai o fywyd gwyllt prinnaf Cymru.



**Heddiw**

Mae Cwningar Niwbwrch yn ardal boblogaidd ar gyfer hamddena ac yn gartref i fywyd gwyllt, yn enwedig gwiwerod coch. Daw Llwybr Arfordir Cymru, sy'n 870 milltir o hyd, drwy'r safle a gall ymwelwyr gerdded i unrhyw le ar y traethau ac ar hyd y rhwydwaith o lwybrau troed.

Mae cerflun sy'n coffáu diwydiant gwehyddu moresg i'w weld ym maes parcio Llyn Rhos Ddu Cyfoeth Naturiol Cymru.

SoLIFE: LIFE 17 NAT/UK/000023

Mae prosiect Twyni Byw-Sands of LIFE wedi cael cyllid gan Raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**